

RHAGLEN WAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU **Pwyllgor Craffu ar faterion lechyd a Lles**

Dwyn yr Adain Weithredol a'r Cyngor i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithredu argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor lechyd a Lles yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Dyddiad/Amser	Nod cyffredinol	Swyddog	Aelod o'r Cabinet	Craffu yn canolbwyntio ar...
8 Rhagfyr 2020, 5pm	<ul style="list-style-type: none"> <i>Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles (Drafft)</i> 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu 		Craffu a Her – Er mwyn i'r Pwyllgor Craffu ar faterion Iechyd a Lles gytuno ar ei Raglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/2021
	Y Newyddion Diweddaraf ynghylch Covid-19	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Oedolion		<i>Craffu a Her - Derbyn y newyddion diweddaraf gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Oedolion mewn perthynas â COVID 19.</i>
12 Ionawr 2021, 5pm	<ul style="list-style-type: none"> Trosolwg o Ymateb y Cyngor i Covid 19 o safbwynt Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd Adroddiad Diweddarau CLG Hope Rescue 	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd</p> <p>Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Diogelwch Cyhoedd</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd</p>		<p>Craffu a Her - Derbyn diweddariad gan Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd mewn perthynas ag Ymateb y Cyngor i covid o safbwynt Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd.</p> <p>Derbyn y newyddion diweddaraf mewn perthynas â Chytundeb Lefel Gwasanaeth Hope Rescue</p>
				Derbyn diweddariad pellach mewn perthynas ag Ymateb y

<p>8 Chwefror 2021, 5pm</p>	<p>Diweddariad Pellach mewn perthynas â COVID 19 gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Oedolion.</p> <p>Diweddariad mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig mewn perthynas ag Awtistiaeth a'r ffordd ymlaen. (Trafod y newid o Blentyndod i fod yn Oedolyn)</p>	<p>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Oedolion</p> <p>Darparwyr y 3ydd Sector</p> <p>Defnyddwyr y Gwasanaeth</p>	<p>Gwasanaethau i Oedolion i COVID 19.</p> <p>Derbyn gwybodaeth gan Ddarparwyr y 3^{ydd} Sector a Defnyddwyr Gwasanaeth a thrafod y ffordd ymlaen.</p>
<p>16 Mawrth 2021, 5pm</p>	<p>Strategaeth Ddigartrefedd (wedi'i diweddarau)</p> <p>Y Gwasanaeth Comisiynu a Chamddefnyddio Sylweddau</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd</p>	<p>Craffu a Her - derbyn diweddariad mewn perthynas â'r strategaeth Ddigartrefedd.</p> <p>Asesu cynnydd y Gwasanaeth</p>

Iechyd a Lles - Materion Parhaus i'w Hadolygu yn y Dyfodol: -

Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion (Pa ddarpariaeth sydd ar gael yn ystod COVID 19)

Rhybudd o Gynnig mewn perthynas ag Awtistiaeth (mae angen trafod ymgynghoriad LIC)

Oedi wrth drosglwyddo gofal

Canolfannau yn y Gymuned

Y newyddion diweddaraf mewn perthynas â Gofal Ychwanegol (Cyfleusterau newydd ac adborth gan breswylwyr y cyfleusterau)

Gwasanaethau Cofrestru (Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE)

Hope Rescue (CLG)

Y Newyddion Diweddaraf mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Adolygu Tai Amifeddiannaeth